**LC1101**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005**

Mae'r Rheoliadau yma'n diwygio Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003 ("Rheoliadau 2003"). Bydd y diwygiadau'n rhoi statws "person cymwys" i bartner sifil yn yr un ffordd ag y mae wedi'i roi ar hyn o bryd i briod, plentyn neu lysblentyn. Bydd y diwygiadau hefyd yn caniatáu i bersonau sydd ar incwm isel sicrhau Cyfrif Dysgu Unigol er y gall fod gan y personau hynny gymwysterau ar lefel uwch na Lefel 2 neu lefel gyfatebol fel y mae wedi'i nodi yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Mae'r pwynt canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 5 yn mewnosod Atodlen yn Rheoliadau 2003. Mae'r Atodlen sydd i'w mewnosod wedi'i nodi yn yr Atodlen i'r Rheoliadau a chyfeirir ati fel "Atodlen 1". Gan mai dyma'r unig Atodlen i Reoliadau 2003, dydy hi ddim yn briodol cyfeirio ati fel "Atodlen 1". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]. Mân wall drafftio yw hwn a gall gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**21 Mehefin 2005**